Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CEFNDIR

# Diweddariadau data dangosyddion MALIC

## Cynllun ar gyfer diweddaru a datblygu data dangosyddion yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Mehefin 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariadau-data-dangosyddion-mallc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Diweddariad 2021

Diweddariad 2020

# Diweddariad 2021

Cyhoeddwyd rhifyn diweddaraf MALIC ar 27 Tachwedd 2019. Cyhoeddwyd rhywfaint o ddata'r dangosyddion wedi'u rhannu yn ôl oedran ym mis Ionawr 2020. Yn 2021, byddwn yn cyhoeddi data ar gyflyrau cronig a chyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu wedi'u rhannu yn ôl oedran.

Rydym bellach wedi adolygu'r potensial ar gyfer diweddaru data dangosyddion yn ystod 2021. Gan ystyried defnyddioldeb cyfyngedig y diweddariadau sy'n bosibl, ansicrwydd arall a goblygiadau o ran adnoddau (i gyflenwyr data ac i Lywodraeth Cymru), ni fyddwn yn diweddaru unrhyw ddata dangosyddion yn 2021. Byddwn yn parhau i gyhoeddi allbynnau sy'n seiliedig ar 2019, yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth MALIC, ac yn ymgymryd â gwaith datblygu tymor hwy ar ddangosyddion allweddol cyn y diweddariad mynegai nesaf (nid yw'r amseru wedi'i bennu eto).

Yn 2021 rydym yn parhau i gyhoeddi allbynnau dilynol ar gyfer MALIC 2019. Gweler ein **rhestr o allbynnau MALIC 2019** ar gyfer manylion llawn o gyhoeddiadau MALIC 2019, gan gynnwys yr hyn sydd i ddod.

Os hoffech gael hysbysiad am ddiweddariadau cyhoeddiadau ar gyfer MALIC, anfonwch e-bost **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** i danysgrifio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariadau-data-dangosyddion-mallc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Diweddariad 2020

Ni fyddwn yn diweddaru unrhyw ddangosyddion MALIC yn 2020 am y rhesymau a amlinellir isod.

- Byddai'r mwyafrif o ddiweddariadau data y gallwn eu cyflawni yn ymwneud â'r flwyddyn 2019 neu cyn, ac felly â chyfnod cyn y pandemig coronafeirws (COVID-19). Golygai hyn y byddai diweddariad dangosydd o werth cyfyngedig, gyda dim ond ychydig o newid i'w gymharu â data a gynhwyswyd ym MALIC 2019, a ni cheir unrhyw ddealltwriaeth o'r newid sylweddol tebygol yn y darlun sylfaenol o ganlyniad i'r pandemig. Bydd y data dangosyddion y byddem wedi ceisio'u diweddaru (e.e. absenolrwydd ailadroddus, cyflyrau iechyd, hawlwyr budd-daliadau a chredyd cynhwysol) yn cael eu heffeithio gan y pandemig a/neu gyfyngiadau symud, a bydd angen eu hadolygu'n drylwyr wrth eu diweddaru.
- Mae diweddaru data dangosyddion yn ddwys o ran adnoddau, ac ar hyn o bryd nid oes gennym y gallu i ymgymryd â'r gwaith yma oherwydd adleoliad adnoddau o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.
- Mae ein cyflenwyr data dangosyddion hefyd wedi gweld newid mewn cynhwysedd a blaenoriaethau oherwydd y pandemig, sy'n effeithio ar eu gallu i weithio gyda ni i bennu a chyflenwi data newydd.

Yn 2021 byddwn yn adolygu'r holl ddata dangosyddion MALIC ac yn penderfynu pa rai, os o gwbl, y gellir ac y dylid eu diweddaru erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariadau-data-dangosyddion-mallc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Diweddariadau data dangosyddion MALlC** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariadau-data-dangosyddion-mallc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/diweddariadau-data-dangosyddion-mallc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.